**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Ionawr 2016

Annwyl Simon,

Yn ystod craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch:

1) Manylion y rhestr o ddeunyddiau sydd yng Ngorchymyn y Dreth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011 ar hyn o bryd;

2) Swm/Cyfran y dreth dirlenwi a delir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yng Nghymru; a

3) Chymhwyso'r rhyddhad yn adran 31 i ail-lenwi hen fwyngloddiau brig.

**Gorchymyn y Dreth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011**

Bydd y rhestr o ddeunyddiau cymwys (ac unrhyw amodau) yn cael ei gosod mewn rheoliadau a fydd yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae pennu deunyddiau cymwys drwy is-ddeddfwriaeth yn gyson â'r drefn yn y DU ac yn yr Alban. Mae trefn y DU wedi'i hamlinellu yng Ngorchymyn y Dreth Dirlenwi (Deunyddiau Cymwys) 2011, sydd ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/1017/contents/made. Mae trefn yr Alban wedi'i hamlinellu yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi yr Alban (Deunyddiau Cymwys) 2015, sydd ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ssi/2015/45/made.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Swm/Cyfran y Dreth Dirlenwi a delir gan awdurdodau lleol yng Nghymru

Rhwng 2002-03 a 2015-16, bu lleihad o 81% yn y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi gan awdurdodau lleol yng Nghymru; mae'r swm wedi lleihau o 1,546,847 i 288,820 o dunelli. Nid oes gennym wybodaeth sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng gwastraff cyfradd safonol a gwastraff cyfradd is. Fodd bynnag, os ydym yn cymryd bod yr holl wastraff awdurdod lleol yn wastraff cyfradd is (gan fod awdurdodau lleol yn debygol o fod wedi ystyried y mwyafrif o'r opsiynau eraill ar gyfer trin gwastraff cyn ei anfon i safle tirlenwi, oherwydd y gost uchel), mae hynny'n golygu y byddai refeniw treth dirlenwi o wastraff awdurdodau lleol wedi gostwng o £39.8m i £23.9m dros y pum mlynedd ddiwethaf (2011-12 i 2015-16) gan fod swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi lleihau'n sylweddol dros y cyfnod hwnnw. Mae hynny pe byddai'r holl wastraff wedi cael ei anfon i safle tirlenwi.

Nid oes gennym ffigurau manwl gywir ar gyfer cyfran y Dreth Dirlenwi a delir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod a'r data gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol[1] ar symiau'r Dreth Dirlenwi, gallwn amcangyfrif bod cyfran y Dreth Dirlenwi a delir gan awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gostwng o tua 80-90% ar ddechrau'r degawd hwn i tua 60-70% heddiw.

| | Tunelli a anfonwyd i safleoedd tirlenwi gan awdurdodau lleol |
|---|---:|
| 2002-03 | 1,546,847 |
| 2003-04 | 1,497,156 |
| 2004-05 | 1,509,338 |
| 2005-06 | 1,389,029 |
| 2006-07 | 1,259,233 |
| 2007-08 | 1,165,155 |
| 2008-09 | 1,034,507 |
| 2009-10 | 931,428 |
| 2010-11 | 826,416 |
| 2011-12 | 710,361 |
| 2012-13 | 640,904 |
| 2013-14 | 587,390 |
| 2014-15 | 453,497 |
| 2015-16 | 288,820 |

Ffynhonnell: WasteDataFlow[2]

## Rhyddhad rhag treth - Ail-lenwi hen chwareli

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch cymhwyso'r rhyddhad yn adran 31 i ail-lenwi hen fwyngloddiau brig. Rwyf yn y broses o ystyried y mater hwn a byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor cyn imi fynychu'r Pwyllgor Cyllid i drafod y Bil ar 2 Chwefror.

[1]Rhagolwg Trethi Datganoledig, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol - http://budgetresponsibility.org.uk/topics/scotland-wales-and-northern-ireland/welsh-tax-forecasts/

[2] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/Annual

Yn ogystal, roeddwn yn meddwl y byddai o gymorth pe byddwn yn rhoi eglurhad pellach o'r pwyntiau technegol a drafodwyd mewn perthynas ag Awdurdod Cyllid Cymru yn dirprwyo swyddogaethau gorfodi a chydymffurfio.

**Swyddogaethau y mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn eu dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

O dan adran 12 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi 2016, ACC fydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am gasglu a rheoli trethi datganoledig, gan gynnwys y dreth gwarediadau tirlenwi. O dan adran 14 o'r ddeddf honno, caiff ACC ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i berson a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Rwyf wedi pennu mai CNC yw'r partner a ffefrir ar gyfer cyflawni swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi ACC mewn perthynas â'r dreth gwarediadau tirlenwi. Mae gan CNC y sgiliau, yr arbenigedd a'r berthynas uniongyrchol â gweithredwyr safleoedd tirlenwi unigol sy'n ofynnol i ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio costeffeithiol ac effeithlon.

Bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth o dan adran 14 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn ystod y 9-12 mis nesaf i alluogi ACC i ddirprwyo swyddogaethau i CNC. Yn dilyn hynny, bydd rhaid i ACC gyhoeddi gwybodaeth am unrhyw swyddogaethau y mae'n eu dirprwyo. Bydd disgwyl i'r cyhoeddiad hwn gynnwys manylion ynghylch graddfa a chwmpas y dirprwyo, a bydd disgwyl iddo fod yn glir a thryloyw. Nid yw'r ffaith fod swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i CNC yn effeithio ar gyfrifoldeb cyfreithiol ACC dros y broses o gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Yn olaf, hoffwn dynnu eich sylw at y newidiadau a gyhoeddodd CThEM yn eu Bil Cyllid drafft 2017, a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr. Mae cymal 47 o'r darpariaethau drafft hynny'n diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996, sy'n ymwneud â'r dreth dirlenwi. Bydd manylion eu cynigion yn cael eu hamlinellu mewn is-ddeddfwriaeth nad yw wedi'i chyhoeddi eto. Mae'n bosibl y bydd CThEM yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth treth dirlenwi y DU a fydd yn berthnasol i weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys ac rwy'n amgáu copi o'r llythyr hwnnw er gwybodaeth. Byddaf yn rhannu fy nadansoddiad gyda'r Pwyllgor wedi i CThEM gyhoeddi ei is-ddeddfwriaeth yn amlinellu'r manylion.

Yn gywir.

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government